**Rhif: 5**

| | |
|---|---|
| **Cais Rhif:** | **C21/0820/30/LL** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **13/09/2021** |
| **Math y Cais:** | **Llawn** |
| **Cymuned:** | **Aberdaron** |
| **Ward:** | **Aberdaron** |
| **Bwriad:** | **Codi estyniad i'r sied wartheg bresennol ac addasiadau i greu storfa dail ac iard fwydo dan do.** |
| **Lleoliad:** | **Cwrt, Uwchmynydd, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8DA** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | CANIATAU GYDAG AMODAU |

## 1. Disgrifiad:

1.1 Bwriad y cais hwn yw codi estyniad i sied wartheg bresennol er mwyn creu storfa dail ac iard fwydo dan do. Fe fyddai'r estyniad yn 36.3m o hyd a 10.9m o led ac yn 4.7m o uchder at frig y to. Fe ffurfir y waliau gan baneli cladin lliw llwyd ar wal isel o goncrid tra byddai'r to o ddeunydd proffil lliw llwyd.

1.2 Saif y safle mewn lleoliad gwledig ar wahân, y tu allan i unrhyw ffin ddatblygu a'i hadnabyddir gan Gynllun Datblygu Lleol Gwynedd a Môn. Saif o fewn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ddynodedig ac mae SDdGA Glannau Aberdaron ac ACA Clogwyni Pen Llŷn tua 650m i'r gorllewin. Mae'r safle yn rhan o grŵp adeiladau fferm Cwrt ac mae'r ffermdy ei hun yn adeilad rhestredig Gradd II. Mae'r safle hefyd o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llŷn ac Enlli.

1.3 Daw'r cais gerbron y pwyllgor gan i'r ymgeisydd fod yn Aelod Etholedig o'r Cyngor.

## 2. Polisïau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â'r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a'r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi'i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

### 2.3 Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn. (Gorffennaf 2017)

PS 5: Datblygu cynaliadwy

PCYFF 1: Ffiniau Datblygu
PCYFF 2: Meini prawf datblygu
PCYFF 3: Dylunio a siapio lle
AMG 1 : Cynlluniau rheolaeth Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol

PS 19 : Gwarchod a neu wella'r amgylchedd naturiol

PS 20 : Diogelu a neu wella asedau treftadaeth

**2.4 Polisïau Cenedlaethol:**

Polisi Cynllunio Cymru

NCT6 – Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

C11/1044/30/LL : Gosod paneli photofoltec ar do sied amaethyddol - Caniatawyd 11/01/12

C07D/0586/20/LL : Mynedfa gerbydol newydd – Caniatawyd 14/01/08

C07D/0003/30/LL : Addasu adeiladau segur yn swyddfeydd/gweithdai ar gyfer wardeniaid a physgotwyr – Caniatawyd 01/03/07

C03D/0556/30/YA : Sied ddefaid a chorlan gwartheg - Caniatawyd 13/11/03

**4. Ymgynghoriadau**

| | |
|---|---|
| Cyngor Cymuned/Tref: | Heb eu derbyn |
| Dwr Cymru : | Dim sylwadau i'w cynnig |
| Uned Bioamrywiaeth: | Gofyn am amod er sicrhau dim gwaith i'r tir yn ystod y tymor nythu adar heb gadarnhad gan ecolegydd nad oes adar yn nythu ar y safle.<br><br>Rhaid ymgymryd â Phrawf Effaith Arwyddocaol Tebygol dan Reoliad 63 y Rheoliadau Cynefinoedd. |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | Dim gwrthwynebiad yn sgil derbyn gwybodaeth ychwanegol– Canllawiau ar gyfer y datblygwr |
| Uned Draenio Tir : | Oherwydd maint a natur y datblygiad mae'n debyg bydd angen darparu cais i'r Corff Cymeradwy SDS i'w gymeradwyo cyn dechrau'r gwaith adeiladu |
| Uned Trafnidiaeth : | Dim sylwadau i'w cynnig |
| Uned Llwybrau : | Bydd angen gwarchod llwybr cyhoeddus Aberdaron rhif 19 yn ystod ag ar ôl y datblygiad yma |

Ymgynghoriad Cyhoeddus: Rhoddwyd rhybudd ar y safle a gwybyddwyd cymdogion. Mae’r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben ac ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth ynghylch y bwriad

**5. Ystyriaethau Cynllunio Perthnasol:**

**Cyd-destun Polisi ac Egwyddor y Datblygiad**

5.1 Mae'r Cynllun Datblygu mabwysiedig yn cynnwys Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (Gorffennaf 2017). Mae polisi cynllunio cenedlaethol yn cael ei gynnwys ym Mholisi Cynllunio Cymru Argraffiad 11, Chwefror 2021 a dogfennau cysylltiedig, sef Nodiadau Cyngor Technegol.

5.2 Mae Polisi PCYFF 1 y CDLl yn annog gwrthod ceisiadau y tu allan i ffiniau datblygu oni bai bod lleoliad cefn gwlad yn hanfodol. Mae Cwrt yn fferm â thenant 150 erw sy'n ffurfio rhan o fusnes fferm cig eidion a defaid traddodiadol sydd â chyfanswm o 1,100 erw ar draws sawl daliad tir. Pwrpas y sied yw cadw stoc i mewn am gyfnod hirach oherwydd bod y tir o amgylch y fferm yn bridd trwm iawn a gall presenoldeb y stoc achosi i bridd halogedig lifo o'r safle yn ystod misoedd y gaeaf. Byddai cadw'r stoc i mewn yn hirach yn helpu lleddfu'r mater hwn. Yn ogystal byddai creu storfa dail dan do hefyd yn caniatáu storio slyri a thail mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r rheoliadau cyfredol ac yn caniatáu lledaenu'r tail a'r slyri yn ystod cyfnodau sych addas gan leihau'r risg o ddŵr ffo elifiant. Fe gredir, wrth ystyried cyd-destun y lleoliad, bod y datblygiad yn rhesymol o safbwynt y defnydd a fwriedir ac felly bod y cynnig yn cyd-fynd a gofynion Polisi PCYFF 1 y CDLl.

**Lleoliad ac Effaith Mwynderol**

5.3 Mae polisïau PCYFF 2 a PCYFF 3 y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn ystyriaethau ar gyfer asesu effaith weledol y cais. Ystyrir, o osod amodau priodol ynghylch y gorffeniad allanol, bydd y strwythur yn gweddu mewn modd addas i'w leoliad gwledig ac na fydd yn difrïo cymeriad nac edrychiad y safle na’r lleoliad. Ni ystyrir ychwaith y byddai niwed i fwynderau preifat unrhyw eiddo arall yn deillio o'r datblygiad. Fe ystyrir felly bod y cais yn cydymffurfio a pholisïau PCYFF 2 a PCYFF 3 y CDLl fel y maent yn ymwneud ag amddiffyn mwynderau.

5.4 Mae’r safle’n gorwedd o fewn yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ond, am y rhesymau a’u nodir uchod, ni ystyrir y byddai’r bwriad dan sylw yn effeithio ar gymeriad yr AHNE. Fe gredir felly fod y bwriad yn dderbyniol dan ofynion Polisi AMG 1 y CDLl.

**Materion Bioamrywiaeth**

5.5 Derbyniwyd sylwadau gan yr Uned Bioamrywiaeth yn nodi y dylid osgoi ymgymryd â gwaith i'r tir hwn yn ystod y tymor nythu adar rhag ofn bydd niwed i rywogaethau gwarchodedig, oni bai bod ecolegydd cymwys wedi ymgymryd ag arolwg o'r safle ymlaen llaw ac wedi cadarnhau nad oes nythod yno. Fe gredir y byddai'n rhesymol felly gosod amod ar y caniatâd er sicrhau'r uchod.

5.6 Mae potensial i’r datblygiad greu llygredd ac mae polisïau PCYFF 2 a PS 5 yn annog gwrthod cynhigion sy’n achosi effaith andwyol sylweddol oherwydd llygredd. Yn sgil derbyn gwybodaeth bellach ynghylch y camau a gymerir i atal llygredd, ‘roedd y cynnig yn dderbyniol gan Gyfoeth

Naturiol Cymru. Yn ogystal, mae rheoliadau'r tu allan i'r system gynllunio, dan ddeddfwriaethau er rheoli llygredd amgylcheddol, a fyddai mewn lle er amddiffyn yr amgylchedd lleol rhag niwed o unrhyw allyriadau posibl o'r cyfleuster.

5.7 Yn ogystal, yn unol â Rheoliad 63 y Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (fel y'u diwygiwyd) oherwydd agosatrwydd y SddGA / ATA rhaid i Gyngor Gwynedd, fel Awdurdod Cymwys gynnal Prawf Effaith Arwyddocaol Tebygol ar y cynefinoedd gwarchodedig cyn gallu penderfynu ar y cais. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn nid oedd canlyniadau'r Prawf hwn eto wedi ei dderbyn gan yr Uned Bioamrywiaeth - fe adroddir ymhellach ar y mater yn y Pwyllgor.

5.8 O osod amod priodol i osgoi niwed i adra sy'n nythu ac o dderbyn canlyniad cadarnhaol i'r Prawf Effaith Arwyddocaol Tebygol , fe gredir u byddai'r datblygiad felly'n dderbyniol dan bolisi PS 19 y CDLl fel y mae'n ymwneud ag amddiffyn bioamrywiaeth yr ardal ynghyd a pholisïau PCYFF 2 a PS 5 y CDLl fel y maent yn ymwneud yn benodol â rheoli llygredd.

**Materion Treftadaeth**

5.9 Mae safle'r datblygiad o fewn yr un grŵp o adeiladau â ffermdy Cwrt, sy'n adeilad rhestredig Gradd II, ac mae'r holl leoliad o fewn Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llŷn ac Enlli. Wrth ystyried natur ddatblygedig y safle a dyluniad arfaethedig yr adeilad newydd, fydd yn gweddu gyda'r adeiladau eraill cyfagos, ni chredir bydd y datblygiad yn niweidiol i unrhyw asedau treftadaeth ac felly fe gredir bod y cais yn dderbyniol dan bolisi PS20 y CDLl/

**6. Casgliadau:**

6.1 O ganlyniad i'r asesiad uchod, ni ystyrir fod y bwriad yn groes i unrhyw bolisi cynllunio perthnasol o fewn y CDLl a bod y datblygiad a gynhigir yn briodol ar gyfer y safle. Fe ystyriwyd yr holl ystyriaethau cynllunio materol a ni chredir fod y bwriad yn debygol o achosi effeithiau andwyol annerbyniol ar fwynderau lleol, bioamrywiaeth nag asedau treftadaeth ac felly fe argymhellir cymeradwyo'r cais cynllunio.

**7. Argymhelliad:**

Dirprwyo'r hawl i'r Uwch Reolwr Cynllunio ganiatáu'r cais yn ddarostyngedig i dderbyn canlyniad boddhaol i'r Prawf Effaith Arwyddocaol Tebygol ar y safleoedd dynodedig cyfagos.

<u>Amodau</u>

1. 5 mlynedd,
2. Datblygiad yn cydymffurfio gyda'r cynlluniau a gymeradwywyd
3. Dim gwaith clirio safle yn ystod y tymor nythu adar heb gytundeb ymlaen llaw.

Nodiadau : Cyfoeth Naturiol Cymru

Uned Draenio Tir

Angen gwarchod y llwybr cyhoeddus